# Dyfarniad Rheoleiddio

## Dyddiad: Rhagfyr 2025

## Tai ClwydAlyn Cyfyngedig – L051

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r LCC yn bodloni ein gofynion.** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r LCC yn bodloni ein gofynion.** |

**Y Broses Asesu**

Cynhaliwyd yr asesiad o ClwydAlyn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Cymru 2025. Yn ogystal â chwmpas safonol llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol, yn dilyn adolygu hunanwerthusiad yr LCC (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig), cynllun gwella cydymffurfio a dogfennau cysylltiedig, adolygwyd y ffordd roedd y cynllun busnes yn cyd-fynd â'r strategaeth rheoli asedau'n fwy manwl.

Ynghyd ag adolygiad o ddogfennau a ffurflenni rheoleiddiol, cynhaliwyd cyfweliadau â'r Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd, arsylwyd ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd a mynychodd y tîm rheoleiddio gyfarfod y Pwyllgor Preswylwyr. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o ganlyniad i gysylltu â'r LCC yn rheolaidd.

**Y Gwelliannau sydd eu hangen**

Dangosodd yr asesiad fod yr LCC yn cydymffurfio â'r safonau rheoleiddio yn unol â'n gofynion.

**Gofynion Hunanwerthuso a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025**

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'n llawn yr holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025. Rhaid mynd i'r afael â'r gofyniad fel y nodir isod yn llawn yn ei hunanwerthusiad nesaf:

> **Gofyniad 2.** Datganiad clir o gydymffurfio/diffyg cydymffurfio â phob un o'r safonau rheoleiddio (a'i chydrannau) a chrynodeb byr o'r ffordd y daethpwyd i'r casgliad hwn. Rhaid i'r datganiad gynnwys dolenni i'r dystiolaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'r sicrwydd y mae'r Bwrdd yn dibynnu arnynt i wneud ei asesiad (neu restr o ddogfennau ffynhonnell a rhifau tudalennau).

Bydd ClwydAlyn yn cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle y gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

**ClwydAlyn: Proffil**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **6,591** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£64.0 miliwn** |
| **Cymhareb Gerio** | **35%** |
| **Cyfamod Talu Llog** | **205%** |
| **Math o LCC** | **Traddodiadol** |
| **Lleoliad:** | **Gogledd a Chanolbarth Cymru** |

*Mae'r ffigurau uchod o 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Mae dyfarniadau rheoleiddio'n cael eu llunio i roi dealltwriaeth i LCCau, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar:

- Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniad at unrhyw ddiben arall. Mae LCC yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a rhoddir i'r Rheoleiddiwr yn ei hunanwerthusiad a' dystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-80633-317-2
Hawlfraint y Goron 2025